Bwletin rieni 15/01/21

Annwyl Riant/Warcheidwad

Nosweithiau rieni

Yn ystod y cyfnod clo mae cyfathrebu yn parhau i fod yn bwysig iawn. Bydd y nosweithiau rieni'r chweched dosbarth a blwyddyn 11 yn parhau. Bydd y rhain yn nosweithiau rhithiol ar nos Lun 18/1/21 (y chweched) a nos Lun 8/2/21 (blwyddyn 11). Bydd trefniadau eraill yn cael eu gwneud ar gyfer adborth ar gyfer pynciau partneriaeth.

Yn ystod noswaith rieni'r chweched bydd Arweinydd Cynnydd a Lles y flwyddyn, Mr John, ar gael i drafod gyda chi. Gan fod Mr John yn dysgu Ffrangeg bydd yn ymddangos o dan y pwnc hwn.

Bydd nosweithiau rieni arferol yn parhau am weddill y flwyddyn:

Noson rieni blwyddyn 9	Dydd Llun	01/03/2021
Noson rieni blwyddyn 10	Dydd Llun	19/04/2021
Noson rieni blwyddyn 7	Dydd Mawrth (Gŵyl y Banc ar ddydd Llun)	04/05/2021

Cyfle i holi athrawon

Deallwn fod cwestiynau am bynciau unigol yn medru codi yn ystod y cyfnod clo. Er mwyn rhoi cyfle i rieni ar draws yr ysgol holi cwestiynau penodol rydyn ni wedi clustnodi prynhawn dydd Mercher 27/1/21 fel brynhawn i holi. Ni fydd gwersi yn ystod y prynhawn ond bydd y staff ar gael ar gyfer apwyntiadau rhithiol gyda rheini.

Mae'r cyfle yma yn un ychwanegol. Gan fod hwn yn gyfnod sydd ar agor i rieni nifer o flynyddoedd, dim ond nifer cyfyngedig o apwyntiadau sydd ar gael i bob blwyddyn. Gofynnwn i chi defnyddio'r cyfle i weld athrawon ble mae gennych gwestiynau penodol yn unig – ni fydd ddigon o lefydd i bob rhiant gweld bob athro. Bydd manylion cofrestru yn dilyn a bydd cyfle i chi nodi unrhyw gwestiynau penodol wrth gofrestru. Bydd hwn yn cynorthwyo'r athrawon wrth iddynt baratoi ar gyfer y noson.

Darpariaeth yn ystod y cyfnod clo

Rydyn ni fel ysgol wedi derbyn adborth gan nifer o rieni yn ystod y cyfnod clo am agweddau o'r ddarpariaeth - nid oes neges gyson gyda rhai rheini yn nodi bod eu plant yn brysur iawn ac eraill ddim. Byddwn ni'n adolygu ein darpariaeth dros yr wythnos nesaf er mwyn gwneud addasiadau o ddydd Llun 25/1/21 ymlaen. Er mwyn gwneud y penderfyniadau hyn, gofynnwn am eich barn chi. Gallwch ddefnyddio'r ddolen isod neu'r cod QR i fynd at yr holiadur.

http://bit.ly/3bFtVdd

Asesiadau allanol

Ar hyn o bryd rydyn ni'n aros i glywed beth fydd y trefniadau asesu ar gyfer safon uwch, uwch gyfrannol a TGAU. Deallwn fod hwn yn gyfnod ansicr iawn i ddisgyblion blwyddyn 11 a 13 yn enwedig. Byddwn yn rhannu'r wybodaeth gyda chi pan mae'r wybodaeth yn dod atom.

Yn ystod broses asesu Haf 2020 daeth canllaw clir o'r llywodraeth i beidio rhannu graddau asesiad terfynol athrawon. Ni fydd athrawon felly yn rhannu'r graddau byddant yn debygol o gofnodi yn yr haf ond gallant drafod safon gwaith dosbarth a chartref, profion ac asesiadau eraill. Gyda nosweithiau rieni'r chweched dosbarth a blwyddyn 11 yn dod yn fuan, ymddiheuraf am y cyfyngiad hwn.

Lles

Er bod safle'r ysgol ar gau i'r mwyafrif o ddisgyblion, rydyn ni'n parhau ar gael trwy e-bost neu alwad ffôn. Mae manylion cyswllt y staff allweddol wedi eu rhannu gyda chi yn y bwletin diwethaf. Gall y sefyllfa bresennol cael effaith negyddol ar les unrhyw aelod o gymuned yr ysgol ond trwy gyd-weithio gallwn geisio lleihau'r effaith. Rydyn ni yma fel staff i gefnogi lles disgyblion felly os mae gennych bryderon cysylltwch gyda'r arweinydd cynnydd a lles priodol er mwyn i ni weld beth sy'n bosib.

Gobeithiaf fod pawb yn cadw'n ddiogel a chadw'n iach,



Dr Rhodri Thomas
Pennaeth